

Cofnodion



Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Gorffennaf 2020

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr T Suller (Cadeirydd), J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, Councillor J Mudd, M Rahman, J Richards, M Spencer, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, R White, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, V Dudley, Y Forsey, R Hayat, T Holyoake, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend and J Watkins

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr M Cornelious and C Evans

1. Datganiadau o ddiddordeb

Dim

2. Penodi Maer / Cadeirydd y Cyngor

Cynigiodd yr Arweinydd, ac fe'i secondwyd gan y Cynghorydd Matthew Evans, y dylid penodi'r Cynghorydd Tom Suller yn Faer Dinas Casnewydd ac yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfredol.

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod y Cynghorydd Suller yn cael ei enwebu'n Faer ar sail statws oherwydd bod David Williams wedi gohirio ei dymor fel Maer.

Penderfynwyd:

Penderfynwyd yn unfrydol y dylid penodi'r Cynghorydd Tom Suller yn Faer Dinas Casnewydd a Chadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol 20/21.

Cymerodd y Cynghorydd Suller yr awenau fel Cadeirydd y cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen.

Diolchodd y Cynghorydd Suller i'r Arweinydd a'r Cyngor. Dywedodd y Maer ei bod yn anrhydedd mawr derbyn enwebiad Maer ac roedd yn edrych ymlaen at wasanaethu'r Ddinas fel y Dinesydd Cyntaf.

Roedd yn anffodus nad oedd y Cyngor, o dan yr amgylchiadau, yn gallu cynnal seremoni ffurfiol i dderbyn y Maer. Fodd bynnag, byddai'r digwyddiad Dinesig yn cael ei gynnal cyn gynted ag y gellid ei drefnu'n ddiogel.

Diolchodd y Maer i'r Maer ymadawol, y Cynghorydd Routley a'r Arglwydd Faeres am eu gwaith rhagorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cyhoeddodd y Maer mai ei elusen enwebedig fyddai'r Gymdeithas Alzheimer a'i Gaplan fyddai'r Tad John Connell o Eglwys y Santes Fair Marshfield.

3. Penodi'r Dirprwy Faer

Roedd y Maer yn falch o gyhoeddi bod y Cynghorydd Val Dudley wedi cytuno'n garedig i wasanaethu fel ei Ddirprwy Faer.

Penderfynwyd:

Penderfynwyd yn unfrydol y dylid penodi'r Cynghorydd Val Dudley yn Ddirprwy Faer Dinas Casnewydd a Chadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol 20/21.

4. Penodi Arweinydd y Cyngor

Gwahoddodd y Maer i rywun i gynnig penodiad Arweinydd y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Mudd fuddiant ar hyn o bryd.

Cyhoeddodd yr Arweinydd, fel y'i hetholwyd, ei phenodiad o Aelodau'r Cabinet:

Swydd	Penodwyd
Arweinydd, Cadeirydd y Cabinet ac Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai	Y Cynghorydd Jane Mudd
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet y Cyngor dros Wasanaethau'r Ddinas	Y Cynghorydd Roger Jeavons
Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau	Y Cynghorydd Gail Giles
Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol	Y Cynghorydd Paul Cockeram
Yr Aelod Cabinet dros Asedau	Y Cynghorydd Majid Rahman
Yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy	Y Cynghorydd Deb Davies
Yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio	Y Cynghorydd Ray Truman
Yr Aelod Cabinet dros y Gymuned ac Adnoddau	Y Cynghorydd David Mayer
Yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden a'r Rheolwr Busnes	Y Cynghorydd Deb Harvey

Siaradwyr yr Wrthblaid

Swydd	Penodwyd
-------	----------

Arweinydd yr Wrthblaid	Y Cynghorydd Matthew Evans
Dirprwy Arweinydd / Addysg a Sgiliau	Y Cynghorydd William J Routley
Rheolwr Busnes / Gwasanaethau'r Ddinas	Y Cynghorydd David Fouweather
Gwasanaethau Cymdeithasol	Y Cynghorydd Joan Watkins
Trwyddedu a Rheoleiddio / Asedau	Y Cynghorydd Martyn Kellaway
Datblygu Cynaliadwy	Y Cynghorydd Richard White
Datblygu Cymunedol ac Adnoddau / Datblygu Aelodau	Y Cynghorydd Ray Mogford
Diwylliant a Hamdden	Y Cynghorydd Charles Ferris

Cytunwyd:

Cafodd y Cynghorydd Jane Mudd ei phenodi'n unfrydol yn Arweinydd y Cyngor.

5. Penodi i Gadeiryddion y Pwyllgor

Yn dilyn enwebiadau gan Arweinwyr eu pleidiau perthnasol, a'r enwebiadau'n cael eu heilio'n briodol, cytunwyd y penodiadau Cadeiryddion Pwyllgorau canlynol gan y Cyngor:

Pwyllgor Cynllunio	Y Cynghorydd John Richards
Pwyllgor Trwyddedu	Y Cynghorydd J Hughes
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	Y Cynghorydd C Ferris
Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu	Y Cynghorydd L Lacey
Pwyllgor Craffu Perfformiad - Partneriaethau	Y Cynghorydd J Clarke
Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl	Y Cynghorydd J Watkins
Pwyllgor Craffu Perfformiad – Lle a Chorfforaethol	Y Cyng. C Evans

(Datganodd y bobl a rhestrwyd uchod, a oedd wedi'u henwebu, fuddiant yn yr eitem hon ac ni wnaethant bleidleisio ar y penodiadau penodol.)

6. Penodi i Bwyllgorau

Cytunodd Arweinydd pob grŵp i rannu penodiadau'r aelodau i'r Pwyllgorau i'r Swyddog Priodol er mwyn eu nodi yn y cofnodion. Bydd y manylion aelodaeth hyn yn dilyn ac yn cael eu diweddarau maes o law.

Yn ogystal, enwebwyd y canlynol:

Cynrychiolydd Athrawon CYSAG - Tanya Simmonds

7. Penodi i Gyrrff Allanol

Rhoddodd y Cyngor ar waith y penodiadau aelodau i gyrrff allanol.

Cytunodd Arweinydd pob grŵp i rannu penodiadau aelodau i Gyrrff Allanol ac Aelodau â Chyfrifoldebau Arbennig i'r Swyddog Priodol er mwyn eu nodi yn y cofnodion. Gweler Atodiad 1 isod.

Yn ogystal, roedd y Penodiadau Llywodraethwyr Ysgol canlynol wedi'u cynnwys:

Corff Llywodraethu	Lleoedd gwag	Penodi
Ysgol Gynradd Alway	Ail-benodiad	Michelle Miles
Ysgol Basaleg	Ail-benodiad	Chris Evans
Ysgol Arbennig Maes Ebwy	Ail-benodiad	Victoria Cox-Wall
Ysgol Arbennig Maes Ebwy	Ail-benodiad	Kate Thomas
Ysgol Gynradd Sant Gabriel	Ail-benodiad	Jan Furtek
Ysgol San Silian	Ail-benodiad	Louise Moore
Ysgol John Frost	Penodiad/Swydd Wag	Jan Atkinson
Ysgol John Frost	Ail-benodiad	Trevor Watkins
Ysgol Gymraeg Casnewydd	Ail-benodiad	Meirion Rushworth
Ysgol Gymraeg Casnewydd	Ail-benodiad	Llio Elgar
Ysgol Uwchradd Sant Joseff	Ail-benodiad	Mark Whitcutt
Ysgol Gynradd Clytha	Ail-benodiad	Mattew Evans

8. **Penodi'r Prif Weithredwr**

Fe'i cynigiwyd gan yr Arweinydd a'i eilio'n briodol y dylid penodi Beverly Owen yn Brif Weithredwr yn unol ag argymhelliad yr Is-bwyllgor Penodiadau.

Gofynnodd y Cynghorydd Matthew Evans y dylid nodi y byddai'n pleidleisio yn erbyn argymhelliad yr Is-bwyllgor Penodiadau. Fodd bynnag, ni fwriadwyd i hyn fod yn adlewyrchiad personol ar yr unigolyn dan sylw.

Penderfynwyd:

Drwy bleidlais fwyafrifol, penderfynwyd penodi Beverly Owen yn Brif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

9. **Cynllun Lwfansau Aelodau 2020/21**

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol oedd y corff â'r dasg o bennu'r lefelau cydnabyddiaeth ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Gwnaeth y Panel benderfyniadau mewn perthynas â chyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau, a hefyd y cyfraddau a'r amodau ar gyfer treuliau a delir gan awdurdodau cyhoeddus.

Adroddwyd adroddiad blynyddol 20/21 y Panel i'r Cyngor ar 27 Chwefror 2020 fel rhan o Gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 20 Chwefror. Penderfynodd y Panel y dylid cael cynnydd chwyddiant o £350 (2.5%) i'r cyflog blynyddol sylfaenol o £13,866, gan roi cyflog sylfaenol uwch o £14,218, a fyddai'n cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2020.

Cynigiodd y Maer i dderbyn yr adroddiad ac fe'i eiliwyd yn briodol.

Penderfynwyd:

Cymeradwydd a mabwysiadodd y Cyngor yr Atodlen Gydabyddiaeth yr Aelodau ar gyfer 2020/21 fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Daeth y mater hwnnw â busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben, felly diolchodd y Maer i gynghorwyr am ddod i'r cyfarfod o bell a datgan bod y cyfarfod wedi cau.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified